



Cyngor Cymuned Pentir

Cynhelir cyfarfod o'r Cyngor Llawn Nos Iau 11^{eg} o Ionawr 2024 Yng Nghanolfan Gymunedol Penrhosgarnedd am 7.00 y.h Agenda

1. Presennol: /Present
2. Ymddiheuriadau: Apologies
3. Cyfethol / Cooption
4. Datgan buddiant / Declaration of interest
5. Derbyn cofnodion / Accept Minutes 09fed o Dachwedd /November 2023
6. Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising
7. Materion ariannol / Financial Issues
 - i. Mantolen ariannol / Financial report
 - ii. Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 29/11/2023
 - iii. Arian nawdd gan gynwys Sioe Mela Ysgol Tryfan a Fynwent Pentir
 - iv. Cadarnhau Cyllideb 2024-25
8. Cynllunio / Planning

Dim cais wedi ei dderbyn o ardal Pentir yn ystod Rhagfyr
9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk
 - a. Ethol Is-Gadeirydd
 - b. Cyfarfod ynglyn a Canolfan Penrhosgarnedd/parcio Ysgol y Faenol
 - c. Materion eraill
 - Capel y Fynwent
 - Cysgodfan Bws Nant y Mownt
 - Goeden Nadolig
 - Traelia Cyngorwyr
10. Materion y Cyngorwyr / Councilors Topics

Cyng J Griffiths	Llythyr Ymddiswyddiad yn Mai 2024
Cyng A Joyce	Gwefan Cyngor Pentir / Website
Cyn D Jones Morris	Addasiadau Ffordd Penrhos
Cyng J Lewis	Maes Parcio i Ras Moelyci 3ydd o Chwefror Materion PPR Lon Plas a merurydd cyflymder bwrdd Hanes a Gwyrdd Rhydygroes
Cyng B Jones	Gwaith ar Ffordd Penrhos yn achosi pryder gwelededd ag yn cwestiynnu diogelwch cerddwyr a beicwyr ar yr un llwybr
Cyng J Pierce	Llwybr Cyhoeddus Hafodol Ganol



Cyngor Cymuned Pentir

Cofnodion cyfarfod Cyngor Llawn Nos Iau 09^{fed} o Dachwedd 2023 Yng Nghanolfan Gymunedol Penrhos am 7.00 y.h

1. **Presennol: /Present** Cadeirydd Cyng D Jones-Morris, Cyng L A James, Cyng M Baines. Cyng A Joyce, Cyng C Owen, Cyng J Pierce, a Cyng M Lynch,
Hefyd yn bresennol, E Jones Clerc a'r cyfieithydd S E Jones
2. **Ymddiheuriadau: Apologies** Cyng B Jones, Cyng J Lewis, Cyng J Griffiths a Cyng I Ellis
3. **Datgan buddiant / Declaration of interest** Cyng M Baines Cyng A Joyce a Cyng L A James yn aelodau o bwyllgor Rheoli Canolfan Cymuned Penrhos

4. **Derbyn cofnodion / Accept Minutes 12fed o Hydref / October 2023**

Derbynwyd eu cywirdeb ar gynnig Cyng L A James gafodd ei eilio gan y Cyng C W Owen Gofynnodd y Cyng M Baines os oedd posib ychwanegu dan 5 - **Cyngor Cyfreithiol** ei bod wedi anfon dogfen at ein cyfreithiwr a chopio pawb i mewn yn dweud pam nad oedd yn derbyn y cyngor ag yn holi am atebion i'r cwestiynnau oedd wedi ei anfon ynglyn a llywodraethiant elusennol

5. **Materion yn codi o'r cofnodion / Matters arising**

Gwefan y Cyngor 'Roedd peth anfodlonrwydd wedi bod yn dilyn cyfarfod o'r Is Grwp - nododd y Cyng A Joyce ei fod wedi gwirfoddoli i gysylltu a Delwedd i neud y newidiadau arfaethiedig ond bod y Cyng L A James, sef yr un sefydlodd y wefan, wedi dechrau ar y newidiadau a gytuniwyd arnynt yn groes i'r hyn a gytuniwyd meddai ef. Nodwyd nad oedd y Cyng L A James yn bresennol yn y cyfarfod cyntaf o'r is-grwp, ond ei bod wedi ymateb i'r newidiadau a gytuniwyd drwy baratoi profleuni yn dangos y newidiadau hynny. Nodwyd, oherwydd anfodlonrwydd y Cyng A Joyce, bod y profleuni hynny heb eu gweithredu arnynt ar hyn o bryd. Cadarnhawyd hefyd bod y Clerc eisioes wedi cysylltu a Delwedd yn datgan bod y Cyng C W Owen wedi ei hychwanegu i'r rhestr o rhai awdurdodedig i wneud newidiadau ac y byddai hithau yn cysylltu a nhw maes o law ynglyn â chadarnhau hyd a lled ein cytundeb presennol ac unrhyw hyblygrwydd i addasu honno, pe bai angen gwneud hynny. Cytuniwyd hyn yng nghyfarfod o'r cyngor llawn ar y 14eg o Fedi 2023. Ail ategwyd hefyd nad oedd Delwedd yn cyfieithu unrhyw gyfraniadau i dudalennau'r wefan – ar hyn o bryd y Clerc sydd a'r awdurdod i anfon y gwaith hynny at Cymen yn unol a'r drefn llywodraethu ariannol.

Cadarnhawyd felly:

- **mai y Cyng C W Owen fydd yn arwain ar y trafodaethau ynglyn a chynnwys y gytundeb presennol ynghyd ag unrhyw wasanaeth ychwanegol y gall Delwedd eu cynnig fel rhan or gytundeb hynny (neu fel rhan o gytundeb newydd os bydd angen gwneud hynny);**
- **mai'r Clerc, y Cyng L A James a bellach y Cyng C W Owen fydd a'r awdurdod i weithredu fel y pwyntiau cyswllt â Delwedd gyda newidiadau i'r wefan o hyn ymlaen – yn unol a'r polisi iaith;**
- **bod croeso i unrhyw aelod o'r cyngor gyfranu i'r is-grwp y wefan petaent yn dymuno i wneud hynny, i lywio delwedd a chynnwys y wefan;**
- **bod gwaith cyfieithu i'w anfon at Cymen drwy law'r Clerc yn unig;**



Cyngor Cymuned Pentir

- **ail-drefnu cyfarfod o'r Is-Grwp y wefan i'r 17eg o Dachwedd i drafod y newidiadau sydd wedi eu dechrau gan y Cyng Lowri James, gyda'r bwriad o uwchlwytho'r newidiadau hynny cyn gynted a phosib.**

Llwybr Llesiant 'Roedd cyfarfod wedi bod wrth Ysgol garnedd ar y 13eg o Hydref hefo swyddogion a Wynedd yr Aelod Lleol ag Aelodau Lleol wradiao cyfagos

Byddai'r gwaith yn cychwyn y dydd Llun canlynol 13eg o Dachwedd o gyfeiriad Ysbyty Gwynedd i gyfeiriad Penchwintan sy'n golygu fod y rhan helaethaf o'r gwaith hwnnw tu allan i ardal Pentir

Clerc i Ysgrifennu at Gwynedd yn datgan pryder y Cyngor hwn tuag at y rhan nesaf o'r prosiect fydd yn dod o Ysbyty Gwynedd tuag at Capel Graig lle bydd y ffordd brysur yn arwain at ysbyty yn culhau

6. Materion ariannol / Financial Issues

i. **Mantolen ariannol / Financial report**

'Roedd adroddiad ariannol Medi a Hydref yng nghynnwys y pecyn ddosbarthwyd yn dangos bod ail ran y Praesept wedi cyrraedd yn Medi a bod bellach £26,039.76 yn y cyfrif cyfredol a £40,587.81 yn y cyfrif cadw yn dilyn derbyn £185.30 mewn llog

ii. **Cofnodion cyfarfod IBC / Minutes of S F C 01/11/2023**

Rhanwyd y cofnodion drafft oedd heb gael ei cadarnhau yn gywir gan nodi fod y cyfarfod Teams gyfeirir ynddynt i drafod materion parcio/ysgol y Faenol wedi ei gynnal ar y 7fed ag iddo fod yn gyfarfod positif a chadarnhaol iawn.

7. Y Gofrestr Risg

Nodwyd bod trafodaeth wedi bod yng nghyfarfod o'r IBC ynglyn a'r gofrestr risg, a'r bwriad oedd sefydlu grwp bach i edrych ar y ddogfen hon i'w diweddarau a'u rhanu efo'r cyngor llawn. Nodwyd bod elfennau iechyd a diogelwch wedi eu diweddarau ond bod angen edrych ar elfennau cyfreithiol eraill. Nodwyd bod y Polisi iaith wedi ei sefydlu ond bod angen cadarnhau mai polisi ac nid cynllun iaith sydd ei angen. Rhanwyd copi o'r polisi iaith presennol (drwy ffon y Cyng Baines) – cadarnhawyd bod y ddogfen yn cyfeirio at yr angen i unigolion gyfathrebu drwy gyfrwng y ddwy iaith wrth gyfathrebu gyda cyrff allanol/cyhoeddus.

8. Cynllunio / Planning

C23/0653/25/LL Lleoliad Tan Y Grisau Lôn Tan Y Grisau, Pentir, Bangor, Gwynedd, LL57 4YB Codi bloc stablau ac adeiladu menage **Dim gwrthwynebiad**
C23/0346/25/LL Lleoliad Old Manor House, Parc Y Faenol, Bangor, Gwynedd, LL57 4BP Newid defnydd cyn stablau i dy annedd gyda estyniad cefn **Dim gwrthwynebiad**

9. Materion y Clerc / Topics from the Clerk

a. **Cyfarfod ynglyn a Canolfan Penrhosgarnedd**

Cyfarfod teams wedi ei gynnal ar y 7fed o Dachwedd Er nad oedd neb o adran gyfreithiol Cyngor Gwynedd yn bresennol cafwyd cyfarfod positif a buddianol iawn



Cyngor Cymuned Pentir

gyda'r gobaith bydd cyfarfod arall yn digwydd cyn y Nadolig i drafod opsiynau tymor byr a drafft o brydles ar gyfer y Ganolfan Newydd

b. Sedd Wag

Byddwn yn hysbysebu'r sedd wag achlysurol yn sgil ymddiswyddiad Cyng D W Jones

c. Ethol Is-Gadeirydd

Oherwydd bod sawl aelod yn absennol cytunwyd i ohirio Ethol Is Gadeirydd tan y Flwyddyn newydd

d. Materion eraill

- **Rhandiroedd cyhoeddus** Mae ymdrechion cenedlaethol yn cymell sefydlu rhandiroedd cymunedol ledled y wlad. Mae prinder tir addas yn yr ardal ond cytunwyd i'r Clerc holi hefo Cymdeithas Tai Adra a Cyngor Gwynedd i holi os oes ganddynt unrhyw dir diffaeth allai gael ei addasu ar gyfer creu rhandiroedd
- **Capel y Fynwent** Cwmni Cadarn yn parhau'n brysur ond un o'i Syfewyr dan deitl Cwmni Pennant am gyflwyno amcanbris cyn y gwylia
- **Lon Plas Pentir** Trafodwyd pa fantais fyddai i Cyngor Pentir fabwysiadu y tir yma os byddai Cyngor Gwynedd neu peidio am wneud defnydd ohono i greu llwybr beicio. Cytunwyd byddai'n fwy synhwyrol i Cyngor Gwynedd ei fabwysiadu
Cytunwyd i beidio symud ymlaen i fabwysiadu'r tir/trac
- **Coed a Goleuadau Nadolig** Cytunwyd i'r Clerc wneud ymholiadau a prisio gosod goleuadau nadoligaidd ar 6 lamp stryd yn Penrhos a Coeden a goleuadau arni ym Mhentir

10. Materion y Cynghorwyr / Councilors Topics

Cyng D Jones Morris **Newid Bin baw cwn sy'n Coed y Maes i Fin Gwyrdd arferol**
Clerc i holi Cyngor Gwynedd

Cyng L A James **Marchnata ein canolfannau cymunedol drwy Papurau Bro**
Gan fod canolfan Penrhos eisioes yn cael i hysbysebu yn Goriad holi os oes angen ystyried
Canolfan Glasinfryn hefyd **Holi swyddogion Canolfan Glasinfryn**